English

Hysbysiad Preifatrwydd – Recriwtio Staff y Comisiwn

Mae'r wybodaeth ar y dudalen hon yn esbonio sut y mae Comisiwn y Senedd ("y Comisiwn") yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol pan fyddwch chi'n gwneud cais am swydd gyda ni. Mae hefyd yn nodi am ba mor hir y cedwir y wybodaeth honno ac o dan ba amgylchiadau y byddwn yn ei rhannu â sefydliadau eraill.

Pwy ydym ni

Comisiwn y Senedd yw'r rheolydd data ar gyfer y wybodaeth a roddir gennych, a bydd yn sicrhau y caiff y wybodaeth hon ei diogelu a'i defnyddio yn unol â deddfwriaeth diogelu data.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach am y ffordd yr ydym yn prosesu data personol, neu sut i arfer eich hawliau, cysylltwch â'n Swyddog Diogelu Data yn:
diogelu.data@senedd.cymru
Tŷ Hywel, Stryd Pierhead, Bae Caerdydd CF99 1SN
0300 200 6494

Pa wybodaeth yr ydym yn ei chasglu?

Caiff y wybodaeth y gofynnwn amdani ei defnyddio i'n galluogi i ystyried a ydych yn addas ar gyfer swydd wag sydd wedi'i hysbysebu. Er nad oes rhaid i chi ddarparu'r wybodaeth yr ydym yn gofyn amdani, gallai peidio â darparu digon o wybodaeth effeithio ar ein gallu i brosesu'ch cais, asesu eich addasrwydd, a chynnig swydd i chi.

Gwybodaeth a brosesir wrth wneud cais

Mae ein System Olrhain Ceisiadau yn cael ei rhedeg gan WebRecruit, sef darparwr trydydd parti. I gyflwyno cais drwy'r System Olrhain Ceisiadau, gofynnir i chi greu cyfrif drwy nodi eich enw, eich cyfeiriad e-bost a'ch rhif ffôn. Gallwch hefyd ddewis cael Rhybuddion ar gyfer mathau penodol o

swyddi. Bydd y wybodaeth uchod yn cael ei storio gan WebRecruit a nhw fydd y Rheolydd Data ar gyfer y wybodaeth hon. Mae manylion am yr hyn y bydd WebRecruit yn ei wneud â'ch gwybodaeth gofrestru ar gael yn ei Hysbysiad Preifatrwydd. Nid WebRecruit fydd y Rheolydd Data ar gyfer y wybodaeth a gyflwynir gennych fel rhan o'ch cais ar gyfer rôl a hysbysebir yn y Comisiwn.

Bydd WebRecruit yn cadw'r wybodaeth a gyflwynir gennych ar weinydd a ddarperir gan drydydd parti arall, sef OVH (http://www.ovh.co.uk). Mae'r gweinyddion a ddefnyddir gan OVH wedi'u lleoli yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE).
WebRecruit. Mae Web Recruit hefyd yn defnyddio trydydd partïon eraill i ddarparu'r system hon – mae manylion am y rhesymau y mae data'n cael eu rhannu â'r trydydd partïon hynny wedi'u nodi yn ei hysbysiad preifatrwydd.

Bydd yr holl wybodaeth berthnasol i gynnal sifft yn cael ei chadw ar systemau gwybodaeth y Senedd ac yn cael ei rhannu ag aelodau'r Panel, a bydd modd iddynt gael mynediad i'r wybodaeth er mwyn adolygu ceisiadau. Ar ôl cwblhau'r sifft, bydd y ceisiadau'n cael eu dileu o'r ffolderau hyn ac yn cael eu cadw ar y System Olrhain Ceisiadau yn unig. Dim ond aelodau o dimau gweinyddol adran Adnoddau Dynol y Comisiwn a WebRecruit fydd yn cael mynediad at y wybodaeth sydd wedi'i storio ar y System Olrhain Ceisiadau.

Mae'r data personol a brosesir yn cynnwys eich teitl, enw, cyfeiriad cartref, cyfeiriad e-bost, rhif ffôn, addysg, cymwysterau, hanes cyflogaeth a sgiliau, geirdaon cyflogaeth ac atebion i gwestiynau y nodwyd gennym eu bod yn berthnasol i'r rôl, ac unrhyw wybodaeth bersonol arall y gallech fod wedi'i rhoi ar eich ffurflen gais. Er mwyn gwella effeithiolrwydd ein proses recriwtio, rydym hefyd yn cofnodi gwybodaeth am sut y gwnaethoch gyrraedd y dudalen swyddi gwag, er enghraifft drwy blatfform trydydd parti (Facebook, Twitter, a gwefannau recriwtio eraill ac ati) a'r math o ddyfais a ddefnyddiwyd.

Mae cyfraith diogelu data yn cydnabod rhai "categorïau arbennig" o wybodaeth. Diffinnir y rhain fel gwybodaeth sy'n datgelu cefndir unigolyn o ran hil neu ethnigrwydd, barn wleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol, aelodaeth o undeb llafur, gwybodaeth enetig, gwybodaeth fiometreg ar gyfer adnabod person yn unigryw, gwybodaeth am iechyd, a gwybodaeth am fywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol unigolyn.

Mae'r categorïau arbennig hyn yn cael eu hystyried yn arbennig o sensitif ac mae lefel arbennig o warchodaeth yn gymwys iddynt. Mae hyn hefyd yn wir am wybodaeth sy'n ymwneud â throseddau neu euogfarnau.

Gofynnir hefyd am gategorïau arbennig o ddata yn ystod y cam gwneud cais, ar gyfer monitro cyfle cyfartal a thriniaeth gyfartal, a allai gynnwys eich rhyw, ethnigrwydd, cenedligrwydd, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, crefydd/cred.

Rydym yn defnyddio datganiadau ynghylch anabledd i'n galluogi i asesu a gwneud addasiadau rhesymol i'r broses recriwtio os bydd yr ymgeisydd yn gofyn amdanynt.

Pam rydym yn casglu'r wybodaeth hon

Caiff data personol eu casglu a'u defnyddio i hwyluso proses recriwtio staff y Comisiwn ac i gyflawni ein dyletswyddau i gyhoeddi data monitro amrywiaeth fel rhan o ddyletswyddau sector cyhoeddus Deddf Cydraddoldeb 2010 (cyhoeddir y data hyn yn ddienw).

Rhaid i ymgeiswyr gwblhau'r cwestiynau ynghylch amrywiaeth ar gyfer monitro cyfle cyfartal. Fodd bynnag, mae cyfle i ymgeiswyr nodi 'Mae'n well gennyf beidio â dweud' i bob cwestiwn. Rydym yn casglu'r wybodaeth hon i'n cynorthwyo â'n cyfrifoldebau monitro.

Os byddwch yn nodi manylion o ran amrywiaeth, bydd y wybodaeth yn cael ei thrin yn gyfrinachol ac yn cael ei chadw ar wahân ac ni fydd y panel recriwtio yn ei gweld. Ni fydd modd adnabod unrhyw unigolyn fel rhan o'r broses hon.

Beth y byddwn ni'n ei wneud â'r wybodaeth bersonol a ddarperir gennych

Bydd y Comisiwn yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol er mwyn:

- Gwerthuso eich cais ac asesu eich addasrwydd ar gyfer y rôl dan sylw;
- Gwneud penderfyniad ynghylch a ddylid eich dewis ar gyfer cyfweliad a phenodiad;

- Cynnal proses sgrinio perthnasol cyn dechrau'r gyflogaeth (e.e. cynnal gwiriadau o gofnodion troseddol/Fetio Diogelwch Cenedlaethol; gwirio'ch cyfeiriad, cymwysterau academaidd a'ch profiad gwaith);
- Adolygu ac archwilio'r broses recriwtio a'i chanlyniadau;
- Cynnal gweithgareddau monitro amrywiaeth.

Mae manylion am yr hyn y bydd WebRecruit yn ei wneud â'ch gwybodaeth gofrestru ar gael yn ei Hysbysiad Preifatrwydd.

Gwybodaeth a brosesir yn ystod y cam cyfweld

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, gofynnwn i chi ddarparu'r eitemau a ganlyn:

- Trwydded yrru ddilys / Pasbort dilys;
- Ffurflen Datganiad Cofnod Troseddol wedi'i chwblhau:
    - Mae'r ffurflen Datganiad Cofnod Troseddol yn cynnwys ei Hysbysiad Preifatrwydd ei hun o ran sut mae'r swyddfa Fetio yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir;
    - Gall hyn gynnwys cael gwybodaeth am euogfarnau troseddol, rhybuddion neu droseddau eraill a gyflawnwyd, p'un a ydynt yn rhai o'r gorffennol, yn rhai cyfredol neu'n rhai sydd yn yr arfaeth;
    - Mae'r ffurflen Datganiad Cofnod Troseddol yn cynnwys gwybodaeth bersonol a gedwir yn unol â'r amserlen ar gyfer cadw gwybodaeth a amlinellir yn y Polisi Fetio;
    - Pasbort neu Fisa i gadarnhau cymhwysedd i weithio yn y DU.

CCTV

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, nodwch fod gennym deledu cylch cyfyng ar y safle. Mae delweddau'n cael eu monitro a gellir eu recordio at ddibenion atal troseddau a diogelwch y cyhoedd. Mae'r cynllun hwn yn cael ei reoli gan

y Comisiwn. I gael rhagor o wybodaeth, gweler Polisi Preifatrwydd y Senedd neu ffoniwch: 0300 200 6555

Gwybodaeth a brosesir ar y cam cyn-gyflogaeth

Os byddwch yn llwyddiannus mewn cyfweliad, byddwn hefyd yn gofyn ichi ddarparu:

Drwy'r System Olrhain Ceisiadau:

- Manylion cyswllt canolwyr;
- Manylion unrhyw aelodaeth o Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil;
- Ffurflen gais parcio car (os bydd angen).

Gofynnir i chi hefyd ddychwelyd eich dogfen Cynnig Cyflogaeth a'ch Contract Cyflogaeth drwy'r system, neu drwy'r post os byddai'n well gennych wneud hynny.

Drwy e-bost:

- Holiadur iechyd galwedigaethol wedi'i gwblhau er mwyn cadarnhau a ydych yn ffit i weithio;
- Manylion banc;
- Manylion cyswllt mewn argyfwng.

Ffynonellau Data

Bydd y wybodaeth yr ydym ni'n ei chasglu yn cael ei darparu'n uniongyrchol gennych chi, neu weithiau gan asiantaeth recriwtio.

Os byddwch yn llwyddiannus mewn cyfweliad, byddwn yn casglu gwybodaeth gan drydydd partïon, gan gynnwys eich canolwyr, eich darparwr addysg, y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Rhestr bostio a Banc CVs

Os byddwch yn cysylltu â'r Comisiwn i holi am swyddi gwag neu i gyflwyno CV: byddwn yn cysylltu â chi i ofyn ichi gydsynio i ni gadw eich manylion am 12 mis yn unol â'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn, ac i ofyn a hoffech chi gael gwybod am unrhyw swyddi gwag sydd ar ddod. Byddwn yn cysylltu â chi eto

mewn 12 mis i weld a ydych yn cydsynio i ni gadw eich manylion ar ffeil am flwyddyn arall.

Rhannu gwybodaeth bersonol

Efallai y byddwn yn defnyddio asiantaethau recriwtio yn dibynnu ar y rôl. Byddant yn cadw'r wybodaeth am 12 mis ar ôl y penodiad. Bydd yr asiantaeth benodedig yn darparu manylion am eu rhybudd preifatrwydd priodol. Os byddwch yn llwyddiannus yn y cyfweliad, bydd eich data yn cael eu prosesu fel uchod.

Mae gennym Wasanaeth Iechyd Galwedigaethol Annibynnol a all rannu gwybodaeth bersonol â ni o ran asesu eich addasrwydd i weithio a/neu unrhyw argymhellion ar gyfer addasiadau rhesymol.Ceir rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn yn www.insynchealth.co.uk.

Bydd rhywfaint o'ch gwybodaeth bersonol hefyd yn cael ei hanfon at drydydd partïon pan fo angen cynnal gwaith sgrinio cyn cyflogaeth e.e. Fetio Diogelwch Cenedlaethol y DU a/neu gael tystlythyrau gan gyflogwyr blaenorol, tystlythyrau personol ac addysg, gwiriadau ynghylch cymwysterau/cefndir proffesiynol.

Heblaw am yr hyn a nodir uchod, dim ond personél awdurdodedig y Comisiwn (h.y. rheolwyr sy'n chwilio am staff newydd a'r adran adnoddau dynol) sy'n ymwneud yn uniongyrchol â rheoli a gweinyddu'r broses recriwtio ac y mae angen iddynt gael mynediad i'ch gwybodaeth fydd yn gallu gweld a phrosesu'ch gwybodaeth bersonol.

Efallai y bydd y Comisiwn hefyd ddatgelu gwybodaeth am ymgeiswyr i drydydd partïon eraill, er enghraifft, er mwyn sefydlu neu amddiffyn hawliau cyfreithiol y Comisiwn, neu mewn argyfwng os bydd iechyd neu ddiogelwch personol ymgeisydd mewn perygl.

Caiff rhywfaint o wybodaeth ei chadw ar rwydwaith TGCh y Comisiwn, sy'n cynnwys gwasanaethau cwmwl trydydd parti a ddarperir gan Microsoft. Bydd unrhyw drosglwyddiad data gan Microsoft y tu allan i'r Ardal Economaidd

Ewropeaidd yn dod o dan gymalau cytundebol lle mae Microsoft yn sicrhau bod data personol yn cael eu trin yn unol â deddfwriaeth Ewropeaidd. Mae manylion am sut y bydd Microsoft yn defnyddio'ch gwybodaeth ar gael yn ei Ddatganiad Preifatrwydd.

Am faint o amser y byddwn yn cadw eich gwybodaeth

Bydd manylion personol ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael eu cadw am 12 mis, yn unol ag amserlen cadw gwybodaeth y Comisiwn. Bydd dogfennau'n cael eu dinistrio yn unol â'n hamserlen ar gyfer dinistrio. Byddwn yn anfon neges atoch bythefnos cyn i'ch gwybodaeth gael ei dileu.

Bydd manylion personol ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu cadw drwy gydol eu cyflogaeth ac am 100 mlynedd ar ôl i'w cyflogaeth ddod i ben.

Mae manylion am ba mor hir y bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw gan WebRecruit, sef rheolydd data y wybodaeth gofrestru, ar gael yn ei Bolisi Preifatrwydd.

Ein sail gyfreithiol ar gyfer casglu, cadw a defnyddio'ch gwybodaeth bersonol

Mae cyfraith diogelu data yn nodi seiliau cyfreithiol amrywiol sy'n caniatáu i ni gasglu, cadw a defnyddio eich gwybodaeth bersonol, sef:

- Pan fyddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol i gyflawni ein swyddogaethau cyhoeddus. Un o brif swyddogaethau y Comisiwn yw darparu'r staff a'r gwasanaethau sydd eu hangen ar y Senedd at ei dibenion a'i gwaith. Enghraifft o hynny yw'r gwaith prosesu a wneir er mwyn asesu pa ymgeisydd yw'r un mwyaf addas ar gyfer swydd benodol;
- Pan fo angen cynnal y gwaith prosesu er mwyn cymryd camau i ymrwymo i gontract gyda chi. Enghraifft o hynny yw cysylltu â'r canolwyr a ddewiswyd gennych;
- Pan fo dyletswydd arnom yn ôl y gyfraith i brosesu'ch gwybodaeth bersonol. Enghraifft o hynny yw pan fo angen i ni wneud addasiadau rhesymol i alluogi ymgeisydd i gymryd rhan yn y broses recriwtio;

- Pan fyddwn yn prosesu'ch gwybodaeth er mwyn amddiffyn eich buddiannau hanfodol. Enghraifft o hynny fyddai pe byddem yn rhannu gwybodaeth am eich iechyd pe bai argyfwng meddygol yn digwydd tra byddwch ar y safle;
- Weithiau byddwn yn casglu a defnyddio'ch gwybodaeth bersonol ar sail eich cytundeb. Caiff hynny ei alw'n 'gydsyniad'. Byddwn yn rhoi gwybod ichi ar bob adeg pan fydd hyn yn digwydd. Enghraifft o hynny yw pan fyddwn yn cadw manylion ymgeiswyr aflwyddiannus am gyfnod penodol er mwyn rhoi gwybod iddyn nhw am swyddi addas yn y dyfodol.

Yn ogystal, byddwn yn prosesu data personol categori arbennig fel rhan o'r broses recriwtio. Dim ond o dan yr amgylchiadau a ganlyn y byddwn yn casglu a defnyddio'r wybodaeth hon:

- os ydym o'r farn ei bod yn angenrheidiol ac er budd sylweddol y cyhoedd i wneud hynny, er enghraifft ar gyfer monitro cyfle cyfartal;
- os ydym o'r farn ei bod yn angenrheidiol i gyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol neu arfer hawliau mewn cysylltiad â chyflogaeth;
- os oes angen eich amddiffyn chi neu berson arall rhag niwed; neu
- o dan amgylchiadau cyfyngedig, pan fyddwch wedi rhoi eich caniatâd penodol inni wneud hynny.

Byddwn hefyd yn prosesu data sy'n ymwneud ag euogfarnau troseddol neu droseddau fel rhan o'r broses recriwtio. Dim ond os oes gennym sail gyfreithiol dros wneud hynny y byddwn yn prosesu'r data personol hyn. Mae gwybodaeth a gesglir fel rhan o'r ffurflen Datganiad Cofnod Troseddol hefyd yn ddarostyngedig i'w Hysbysiad Preifatrwydd ei hun.

Eich hawliau

Fel gwrthrych data, mae gennych nifer o hawliau. Mae'r hawliau sy'n gymwys yn dibynnu ar y seiliau cyfreithiol yr ydym yn dibynnu arnynt i ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol. Ni fydd yr hawliau hynny'n gymwys ym mhob achos, a bydd y Comisiwn yn cadarnhau a yw hynny'n wir ai peidio pan fyddwch chi'n gwneud cais.

Mae'r hawliau'n cynnwys yr hawl i ofyn am fynediad at eich gwybodaeth bersonol eich hun, a elwir weithiau yn 'gais gwrthrych am wybodaeth'.

Hefyd, mae gennych hawl i wneud cais gennym ni:

- bod unrhyw wybodaeth anghywir sydd gennym amdanoch yn cael ei chywiro (nodwch fod gofyn i chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am unrhyw newidiadau o ran eich gwybodaeth bersonol);
- bod gwybodaeth amdanoch chi yn cael ei dileu (mewn rhai amgylchiadau);
- ein bod yn rhoi'r gorau i ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol at ddibenion penodol neu mewn rhai amgylchiadau; a
- bod eich gwybodaeth yn cael ei darparu i chi neu drydydd parti mewn fformat cludadwy (eto, mewn rhai amgylchiadau).

Os hoffech arfer unrhyw un o'r hawliau sydd gennych o dan ddeddfwriaeth diogelu data, gofyn cwestiwn neu wneud cwyn ynghylch sut y defnyddir eich gwybodaeth; cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data gan ddefnyddio un o'r dulliau a nodir yn yr adran “Pwy ydym ni” uchod.

Os byddwch yn anfodlon â’r modd y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol neu os byddwch am gwyno am y modd y gwnaethom ymdrin â’ch cais, cysylltwch â'n Swyddog Diogelu Data a byddwn yn ceisio datrys unrhyw broblemau sydd gennych.

Gallwch hefyd wneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth os ydych yn credu nad ydym wedi defnyddio eich gwybodaeth yn unol â'r gyfraith. Mae manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar gael ar ei wefan.

Ceisiadau am wybodaeth a wneir i'r Comisiwn

Mae'r Senedd yn atebol i ddeddfwriaeth mynediad at wybodaeth. Os gwneir cais am wybodaeth o dan ddeddfwriaeth mynediad at wybodaeth, mae'n bosibl y bydd angen datgelu'r wybodaeth a gawsom gennych yn llawn neu'n rhannol. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a gafodd ei dileu o'r blaen gennym at ddibenion cyhoeddi. Dim ond os yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith y byddwn yn gwneud hynny.

Newidiadau i'n datganiad preifatrwydd

Byddwn yn adolygu'r datganiad preifatrwydd hwn yn rheolaidd ac yn rhoi unrhyw ddiweddariadau ar y wefan hon. Gellir cael copïau papur o'r datganiad preifatrwydd hefyd gan ddefnyddio'r wybodaeth gyswllt isod. Diweddarwyd y datganiad preifatrwydd hwn ddiwethaf ym mis Tachwedd 2020.

Cymraeg

Privacy Notice – Recruitment of Commission Staff

The information on this page explains how the Senedd Commission ("the Commission") uses your personal information when you apply for a job with us. It also describes how long that information is kept for and the circumstances in which we will share it with other organisations.

Who we are

The Senedd Commission is the data controller of the information you provide, and will ensure it is protected and used in line with data protection legislation.

If you have any further questions about the way in which we process personal data, or how to exercise your rights, please contact our Data Protection Officer at:
data.protection@senedd.wales
Tŷ Hywel, Pierhead Street, Cardiff Bay CF99 1SN
0300 200 6494

What information are we collecting?

The information we ask for is used to enable us to consider your suitability for an advertised job vacancy. Whilst you don't have to provide the information we ask for, not providing sufficient information may affect our ability to process your application, assess your suitability, and offer you a position.

Information processed at application

Our Application Tracking System (ATS) is run by WebRecruit, a third party provider. To submit an application through the ATS, you will be required to create an account by inputting your name, email address and telephone number. You may also choose to set up a Job Alert for certain types of roles. The information detailed above will be stored by WebRecruit and they will be

the Data Controller of this information. Details about what WebRecruit will do with your registration and application information can be seen in their Privacy Notice. WebRecruit will not be a Data Controller for the information you submit as part of your application for an advertised role within the Commission.

Information you submit will be held by WebRecruit on a server environment provided by another third party, OVH (http://www.ovh.co.uk). The servers used by OVH are located within the European Economic Area (EEA).
WebRecruit. Web Recruit also use further third parties to provide this system – details about the purposes for which data is shared with those third parties are set out on their privacy notice.

All relevant information to conduct a sift will be saved onto Senedd information systems which will be shared with Panel members, who will then have access to the information in order to review applications. Following the completion of the sift, the applications will be deleted from these folders and kept solely in the ATS. Only members of the Commission's Human Resources and WebRecruit administrative teams will have access to the information stored within the ATS.

Personal data processed includes your title, name, home address, email address, telephone number, education, qualifications, employment history and skills, employment references and answers to questions that we have deemed relevant to the role and any other personal information you may provide on your application form. In order to improve the effectiveness of our recruitment process, we also record information about how you reached the vacancy page, such as via a third party platform (Facebook, Twitter, and other recruitment websites etc.) and the type of device used.

Data protection law recognises certain "special categories" of information. These are defined as information revealing a person's racial or ethnic origin, political opinions, religious or philosophical beliefs, trade union membership, genetic information, biometric information for uniquely identifying a person, information concerning heath, and information concerning a person's sex life or sexual orientation.

These special categories are considered particularly sensitive and are afforded special protection. This is also the case for information relating to criminal offences or convictions.

At application, special categories of data are also requested for monitoring of equal opportunity and treatment which may include your gender, ethnicity, nationality, sexual orientation, disability, religion/belief.

We utilise any declaration of disability to enable us to assess and make reasonable adjustments to the recruitment process should they be required by the applicant.

Why we are collecting this information

Personal data is collected and used to facilitate the recruitment process of Commission staff and to fulfil our duties to publish diversity monitoring data as part of the Equality Act 2010's public sector duties (this data is published anonymously).

The completion of the diversity information questions for equal opportunities monitoring is mandatory. However, candidates have the opportunity to select 'Prefer not to say' to each question. We collect this information to assist us with our monitoring responsibilities.

If provided, your diversity information will be treated as confidential and will be held separately and will not be seen by the recruiting panel. No individual will be identified as part of this process.

What we will do with the personal information you provide

The Commission will use your personal information to:

- Evaluate your application and assess your suitability for the role in question;
- Make a decision about whether you should be selected for interview and appointment;

- Conduct relevant pre-employment screening (e.g. carry out criminal record/National Security Vetting checks; verify your address, academic qualifications and work experience);
- Review and audit the recruitment process and its outcomes;
- Carry out diversity monitoring activities.

Details about what WebRecruit will do with your registration information can be seen in their Privacy Notice.

Information processed at interview stage

If you are invited to an interview, we ask you to provide the following items:

- Valid Driving Licence / Passport;
- Completed Criminal Record Declaration (CRD) form:
    - The CRD form contains its own Privacy Notice with regards to how the Vetting office uses the information provided;
    - This may include obtaining information about criminal convictions, cautions or other offences committed, whether past, current or pending;
    - The CRD form contains personal information that is held in line with the retention schedule outlined in the Vetting Policy;
    - Passport or Visa to confirm eligibility to work in the UK.

CCTV

If invited to interview, please be aware that we have on-site CCTV. Images are being monitored and may be recorded for the purpose of crime prevention and public safety. This scheme is controlled by the Commission - For further information, please see the Senedd's Privacy Policy or contact: 0300 200 6555

Information Processed at Pre-employment stage

If you are successful at interview, we will also ask you to provide:-

Via the ATS:

- Contact details of referees;
- Details of any membership to a Civil Service Pension Scheme;
- Car parking request form (if required).

You will also be asked to return your Offer of Employment document and Contract of Employment through the system, or through the post if you prefer.

Via email:

- Completed Occupational health questionnaire to establish your fitness to work;
- Bank details;
- Emergency contact details.

Sources of Data

The information we collect will be provided directly by you, or sometimes from a recruitment agency.

If successful at interview, we will collect information from third parties, including your referees, education provider, Disclosure and Barring Service.

Mailing list and CV Bank

If you contact the Commission to enquire about job vacancies or to submit a CV: we will contact you to ask that you consent to us to hold your details for 12 months in line with this Privacy Notice, and to ask if you would like to be made aware of any forthcoming vacancies. We will contact you again in twelve months to see if you consent to us holding your details on file for a further year.

Sharing personal information

We may use recruitment agencies depending on the role. Information will be kept by them 12 months after appointment. The appointed agency will provide details of their respective privacy notice. If successful at interview, your data will be processed as above.

We have an Independent Occupational Health Service which may share personal information with us in regards to assessing your fitness for work and/or any recommendations for reasonable adjustments. Further information this service can be found at www.insynchealth.co.uk.

Some of your personal information will also be exchanged with third parties where it is necessary to carry out pre-employment screening e.g. UK National Security Vetting and/or obtaining references from previous employers, personal references and education, qualification/professional checks.

Other than as set out above, your information will only be accessed and processed by authorised personnel of the Commission (i.e. hiring managers and HR) who are directly involved in the management and administration of the recruitment process and have a business need to access your personal information.

The Commission may also disclose applicant information to other third parties for example, in order to establish or defend the legal rights of the Commission, or in an emergency where the health or personal security of an applicant is at risk.

Some information will be stored on the Commission's ICT network, which includes third party cloud services provided by Microsoft. Any transfer of data by Microsoft outside of the EEA is covered by contractual clauses under which Microsoft ensure that personal data is treated in line with European legislation. Details about how Microsoft will use your information is available in their Privacy Statement.

How long your information will be retained

Personal details of unsuccessful applicants will be retained for 12 months, in accordance with the Commission's retention schedule. Documents will be destroyed in accordance with our destruction schedule. You will be notified by us two weeks prior to your information being deleted.

Personal details of successful candidates will be kept for the duration of their employment and retained for 100 years after the end of employment.

Details about how long WebRecruit, as the data controller of registration information, retains your information can be found in their Privacy Policy.

Our legal basis for collecting, holding and using your personal information

Data protection law sets out various legal bases which allow us to collect, hold and use your personal information. These are:

- Where we use your personal information to carry out our public functions. A key function of the Commission is to provide the Senedd with the staff and services it requires for its purposes and its work. An example of this is the processing undertaken in order to assess which applicant is best suited to a particular job;
- Where the processing is necessary in order to take steps to enter into a contract with you. An example of this is contacting your selected referees;
- Where we are under a legal obligation which requires us to process your personal information. An example of this is where we need to make reasonable adjustments to enable an applicant to take part in the recruitment process;
- Where we process your information in order to protect your vital interests. An example of this would be if we shared information about your health if a medical emergency occurred whilst you were on site;
- We will sometimes collect and use your personal information based upon your agreement. This is known as 'consent'. We will always tell you where this is the case. An example is where we keep details of

unsuccessful applicants for a fixed period to advise them of suitable future posts.

In addition, we will process special category personal data as part of the recruitment process. We will only collect and use this information where we:

- consider it necessary and in the substantial public interest to do so, such as for equal opportunities monitoring;
- consider it necessary to meet our legal obligations or exercise rights in connection with employment;
- where it is necessary to protect you or another person from harm; or
- in limited circumstances, where you have given us your explicit consent to do so.

We will also process data relating to criminal convictions or offences as part of the recruitment process. We will only process this personal data if we have a legal basis for doing so. Information collected as part of the CRD form is also subject to its own Privacy Notice.

Your rights

As a data subject, you have a number of rights. The rights which apply depend on the legal bases we are relying on to use your personal information. Those rights will not apply in all instances, and the Commission will confirm whether or not that is the case when you make a request.

The rights include the right to request access to your own personal information, sometimes called a 'subject access request'.

Additionally, you have the right to request from us:

- that any inaccurate information we hold about you is corrected (please note that you are required to keep us up to date with any changes to your personal information);
- that information about you is deleted (in certain circumstances);
- that we stop using your personal information for certain purposes or in certain circumstances; and

- that your information is provided to you or a third party in a portable format (again, in certain circumstances).

If you would like to engage any of the rights that you have under data protection legislation, ask a question or make a complaint about how your information is used; please contact the Data Protection Officer using one of the methods set out in the "Who are we" section above.

If you are dissatisfied with how we are using your personal information or if you wish to complain about how we have handed a request, then please contact our Data Protection Officer and we will try to resolve any issues you may have.

You can also make a complaint to the Information Commissioner's Office (ICO) if you believe we have not used your information in line with the law. The ICO's contact details can be found on their website.

Requests for information made to the Commission

The Senedd is subject to access to information legislation. In the event of a request for information being made under access to information legislation, it may be necessary to disclose all or part of the information that you provide. This may include information which has previously been removed by us for publication purposes. We will only do this if we are required to do so by law.

Changes to our privacy statement

We keep this privacy statement under regular review and will place any updates on this website. Paper copies of the privacy statement may also be obtained using the contact information below. This privacy statement was last updated on November 2020